Partneriaeth **Bioamrywiaeth** Cymru
Wales **Biodiversity** Partnership

Byddwch yn Groesawgar i Wenyn

Mae Bee Friendly yn fenter sydd wedi'i hanelu at gymunedau a sefydliadau cymunedol, ysgolion, cyrff cyhoeddus, cynghorau tref a chymuned, busnesau, prifysgolion a cholegau, addoldai, a llawer o sefydliadau eraill ledled Cymru.

Mae gwenyn, gloÿnnod byw a pheillwyr eraill yn rhan hanfodol o'n hamgylchedd. Oherwydd amrywiaeth o ffactorau, mae'r niferoedd wedi dirywio ac mae peillwyr bellach mewn trafferth. Y newyddion da yw y gallwch chi helpu. Bydd dod yn Groesawgar i Wenyn yn cynnig yr hyn sydd ei angen ar beillwyr i oroesi a ffynnu, a thrwy weithio gydag eraill gallwn wneud Cymru yn wlad groesawgar i beillwyr.

P'un a ydych yn rhan o gynllun Croesawgar i Wenyn, yn aelod o un o'n nifer o sefydliadau cefnogol neu'n unigolyn sydd â diddordeb, edrychwch i weld pa gamau y gallwch chi eu cymryd i wneud ein byd ychydig yn wyrddach - edrychwch ar y Canllaw Gweithredu sy'n Gyfeillgar i Wenyn, Cwestiynau Cyffredin, ffurflen gais a rhestr o blanhigion addas ar y wefan isod.

Byddwch yn Groesawgar i Wenyn YMA